


Gwyfynod mawr trawiadol! Cadwch lygad amdanyn nhw fin nos, neu greu trap eich hun. Bydd y Gwalch-wyfyfyn Hofrol yn casglu neithdar yn y dydd.

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr ein hamgueddfail helpu gydag adnabod, ewch i: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws



Gwalch-wyfyfyn Hofrol
MacroGLOSSUM stellatarum

Gwyfyn sydd i'w weld yn hedfan yn fân ac yn fuan yn y dydd. Bydd yn hofran fel sïedn i fwydo ar neithdar blodau ac yn aml yn dychwelyd i'r un blodyn yr un amser bob dydd.

Bydd yn ymweld â Chymru o dde Ewrop yn yr haf a'i weld ar yr arfordir, ac mewn coetir a threfi.

Hedfan: Awst a Medi
Lled adenydd: 4 - 4.5 cm



Gwalch-wyfyfyn Helyglys
Deilephila elpenor

Mae'r lindys mawr, 8cm o hyd, yn olygfa fwy cyffredin na'r oedolyn (ac yn werth ei weld). Mae ganddo farc llygad ger y pen, ac yn gallu chwyddo'n llawer mwy o gael ei darfu, gan ddychryn adar mawr hyd yn oed. Mae hefyd yn gallu nofio.

Gall oedolyn hedfan yn dda yn y nos yn unig.

Hedfan: Mai i Awst
Lled adenydd: 4.5 - 6 cm



Gwalch-wyfyfyn Helyglys Bach
Deilephila porcellus

Fersiwn llai o'r Gwalch-wyfyfyn Helyglys. Chwiliwch am batrwm ychydig yn wahanol ar y corff a'r adenydd. Mae'r patrwm yn help i guddio yng nghanol planhigion, drwy newid ei amlinell. Mae'r oedolyn yn bwydo liw nos ar driaglog, iris a gwiberlys.

Hedfan: Mai i Orffennaf
Lled adenydd: 4 - 5 cm



Gwalch-wyfyfyn Poplys
Laothoe populi

Gwyfyn cyffredin gydag osgo gorffwys nodedig sy'n debyg i ddeilen farw. Wedi dychryn, bydd yn fflachio darnau coch ar ei adenydd ôl. Mae'r lindys yn bwydo'n bennaf ar boplys a helyg, a bydd yr oedolyn yn aml i'w weld ger y coed hyn.

Hedfan: Mai i Orffennaf / Awst a Medi
Lled adenydd: 7 - 10 cm



Gwalch-wyfyfyn Llygeidiog
Smerinthus ocellata

Tebyg i'r Gwalch-wyfyfyn Poplys, gyda marciau llygad ar yr adenydd ôl. Bydd yn dangos y llygaid i ddychryn ysglyfaethwr. Os na fydd hyn yn gweithio, bydd yn symud ei adenydd i wneud i'r 'llygaid' amrantu.

Hedfan: Mai i Orffennaf
Lled adenydd: 7 - 9 cm



Gwalch-wyfyfyn Yswydd
Sphinx ligustri

Gwalch-wyfyfyn mwyaf Cymru. Mae i'w weld yn bennaf yn y de, ac mae'r niferoedd yn cynyddu. Daw'r enw o'r planhigyn fydd y lindys yn ei fwyta. Chwiliwch am oedolion yn gorffwys ar arwyneb vertigol, fel coed neu ffensys, yn y dydd.

Hedfan: Mehefin i Orffennaf
Lled adenydd: 9 - 12 cm

Ffotograffai: Dave Slade